COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Ionawr 10fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts, Cynghorwyr John B. Hughes a Dewi W. Roberts (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Andrew T. Weir, Erfyl W. Roberts, William B. Williams

Dymunodd y Cadeirydd Flwyddyn Newydd Dda i bawb wrth eu croesawu i'r cyfarfod.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Cynghorwyr John Gwilym Jones a Dylan Llwyd fuddiant yng nghais cynllunio C17/1225/39/LL – Lleoli dwy garafán sefydlog ychwanegol ar y safle presennol, ynghyd â gwelliannau i'r safle a gosod carafán sefydlog fel swyddfa/derbynfa – Pant Gwyn Cottage Caravan Park, Sarn Bach, gan eu bod yn berchnogion maes carafannau sefydlog eu hunain ac yn perthyn i'r ymgeisydd; a'r Cynghorydd Alun Jones yn yr un cais, gan fod yr ymgeisydd yn berthynas teuluol.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Ragfyr 13eg, 2017 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C17/1136/39/LL	Adeiladu cwt glan môr – Cwt Rhif 22, Borth Fawr, Aber-soch **– Cefnogir adeiladu cwt newydd ar yr amod ei fod o'r un mesuriadau â'r presennol, nid cynyddu ei faint fel Rhif 23 neu mae'n creu cynsail i'r gweddill; buan iawn y byddant yn dai...**
C17/1171/39/LL	Adeiladu porth **–** 4 Tan y Gaer, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/1225/39/LL	Lleoli dwy garafán sefydlog ychwanegol ar y safle presennol, ynghyd â gwelliannau i'r safle a gosod carafán sefydlog fel swyddfa/ derbynfa – Pant Gwyn Cottage Caravan Park, Sarn Bach **– Cefnogir y ddwy garafán sefydlog ond, nid yr un fel swyddfa/derbynfa – amod gosod sied yn ei lle; mynegwyd bod y safle'n rhy fach i'w chyfiawnhau [Datgan Diddordeb – AJ, JGJ a DLl]**
C17/1229/39/LL	Adeiladu cegin a balconi ar edrychiad cefn – 16 Cae Pin, Aber-soch **– Cefnogir**
C17/1261/39/LL	Estyniad unllawr cefn â theras ar y to, estyniad deulawr blaen a ffenestri gromen – Bro Heli, 28 Tan y Gaer, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a bod gormod o wydr yn y cynllun a fuasai'n creu cynsail i weddill y stád**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

- Ni dderbyniwyd ymateb i brisiau ychwanegol cwmnïau eraill nac un oddi wrth y cwmni a ofynnodd am luniau o ddrysau'r toiledau.
- Ni chysylltwyd â'r Adran Gynllunio parthed agor caffi Marchros dros y Nadolig.
- Er gwybodaeth – derbyniwyd £18.80 yn arian mynediad y Nadolig hwn o gymharu â £25.30 yn 2016.

b) **Cae Chwarae Aber-soch**

Ni chafwyd cyfle i ymchwilio ymhellach i brisiau offer newydd. Gweler 6. Cyfrifon isod.

c) **Meddygfa Aber-soch**

Ni dderbyniwyd ymateb i estyn gwahoddiad i Brif Swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynychu cyfarfod cyhoeddus a/neu o'r Cyngor i'w drafod ymhellach. Dywedodd Cyng. D.W. Roberts y mynycha gyfarfod â hwy yr wythnos nesaf.

ch) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**

Ni dderbyniwyd taliad iawndâl olaf (mis Rhagfyr) y diffynnydd; cysylltir â Gwasanaeth y Llys.

d) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***

Derbyniodd swyddog wahoddiad i fynychu cyfarfod mis Chwefror i egluro'r cynllun.

dd) **10. Gohebiaeth**: a) **Un Llais Cymru (ULlC): vi)** ***Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!***

- Anfona ULlC grynhoad o'r holl adborth a gafodd, ynghyd â derbyn tystiolaeth o ffynonellau eraill er mwyn llunio ymateb cyfansawdd drafft gan y sector i'r panel; fe'i dosberthir ddiwedd Ionawr/dechrau Chwefror er gwybodaeth a thrafodaeth.
- Nodir yn yr ohebiaeth bellach a dderbyniwyd oddi wrth Banel yr Adolygiad Annibynnol yr ystyria gynrychiolaeth gymunedol, gan gynnwys ymgysylltu ar sail demograffeg ac amrywiaeth o ran cynrychiolwyr (yn ogystal â rôl y cynghorydd). Mae'n awyddus i ddysgu mwy am y seddi gwag a sut y cyfetholir aelodau.

e) **10. Gohebiaeth: d) Tesni Roberts, Cysylltwr Cymunedol, Gwasanaeth Cymdeithasol – Ymchwil Cymuned Llanengan**

Ni ofynnwyd am fwy o wybodaeth.

5. **MYNWENT**

a) **Taliadau Claddu ar Gyfer Plant (Un Llais Cymru)**

Nid oes gan Gyngor Cymuned Aberdaron reol ac ni chododd y mater yn Llanbedrog yn ystod cyfnod y Clerc presennol.

6. **CYFRIFON**

a) **Praesept 2018 – 2019**

Yn dilyn trafod y llif arian diweddaraf, taflenni gwariant ac incwm blynyddol (er nad yw un eleni'n gyflawn eto) a'r gyllideb fras a baratowyd ac a addaswyd ers cyfarfod mis Tachwedd, penderfynwyd cadw'r praesept yn £50,000. Ni chynyddir y pennawd Caeau Chwarae ar hyn o bryd oherwydd na dderbyniwyd prisiau offer newydd – gellir defnyddio'r arian sydd heb ei glustnodi ar gyfer hyn pe bai rhaid. (Caiff Arian Wrth Gefn sylw yn yr Archwiliad Allanol eleni.)

b) **Archwiliwr Mewnol**

i) Ni chysylltwyd â Luned Fôn Jones, aelod o Dîm Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd.

ii) Derbyniwyd llythyr oddi wrth John D. Roberts yn hysbysu ei fod yn gorffen fel Archwiliwr Mewnol oherwydd cymhlethdodau'r drefn sydd ohoni bellach a'r faich o gwblhau'r holl waith trwy Wynedd a Môn o fewn amserlen dynn. Diolcha am y berthynas agos a difyr dros y blynyddoedd; penderfynwyd ysgrifennu llythyr diolch ato. Awgryma enw'r uchod, Luned Fôn Jones, fel olynydd iddo. Amgaeodd ei anfoneb am archwilio cyfrifon 2016 – 2017 – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

c) **John Roberts Ffestiniog – Glanhau Afon Soch**

Derbyniwyd yr anfoneb – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod – ynghyd â gair o ddiolch am gau pen y mwdwl ar y ddyled.

ch) **Cytundeb Trydan y Toiledau**

Daw'r uchod i ben ar Chwefror 18fed a derbyniwyd pris newydd oddi wrth npower – llwyddwyd ei ostwng, pe arwyddid cytundeb tair blynedd, i .2402c y dydd am dâl sefydlog a 23.90c tâl uned kWh. Awgrymwyd holi cwmnïau eraill am brisiau cyn penderfynu'n derfynol.

7. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Cyfraith Cynllunio Cymru – Ymgynghoriad**

Angen sylwadau erbyn Mawrth 1af.

8. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun Parcio**

Cysylltir eto, gan na dderbyniwyd ateb i'r sylwadau o fynegi siomedigaeth na fwriada'r Adran ddileu'r ffi am barcio 24awr.

b) **Blwch Post Llangian**

Ni osodwyd yr uchod o flaen Neuadd yr Eglwys. Adroddodd Cyng. John B. Hughes y cysyllta'n ddyddiol – ar y ffôn neu ymweliad – â Swyddfa Ddidoli Pwllheli i holi ei hynt ac er yr arwyddwyd y caniatâd swyddogol ers cyn y Nadolig, nid oes sôn am ei osod.

c) **Torri Gwair Ochr Ffordd**

Anghofiwyd cysylltu eto i ofyn am hyn. Adroddwyd y dylid gofyn i'r Adran, hefyd, lanhau'r ffordd – hen dyfiant a dail ac ati – rhwng Fron Olau ac Ynysfor, yn dilyn torri'r gwrych a oedd yn destun gorfodaeth; cliriwyd yr hyn a dorrwyd gan y contractwr ond, deil y ffordd yn beryglus i gerddwyr oherwydd y brwgaij.

9. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Torri'r Llwybrau***
Ni chysylltwyd â Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, parthed ailgategoreiddio llwybrau'r gymuned.

10. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Hyfforddiant misoedd Chwefror i Orffennaf***
Rhestr o'r cyrsiau a gynhelir er gwybodaeth.

ii) ***Bwletin mis Rhagfyr***
Copi, er gwybodaeth – nid oedd dim o bwys i'w argraffu.

b) **Adran Gyfreithiol – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau**
Copi, er gwybodaeth.

c) **Simon Green – Deiseb i Lywodraeth Cymru – Tystysgrif Mynediad**
E-bost oddi wrth yr uchod, sef Cadeirydd Cynghrair Pobl Anabl Penybont-ar-Ogwr, yn gofyn am gefnogaeth i'r ddeiseb gael Tystysgrif Mynediad i adeiladau yng Nghymru cyffelyb i'r un Glanweithdra Bwyd; penderfynwyd ei chefnogi.

ch) **Jane Williams – Deiseb Greenpeace – Talu am Ddychwelyd Poteli**
E-bost a dderbyniodd yr uchod i rannu'r ddeiseb cefnogi cynlluniau gosod blaen-dâl bychan ar boteli plastig; penderfynwyd ei chefnogi.

11. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C17/0968/39/LL	Aildrefnu safle carafannau sefydlog presennol er lleoli tair carafán ychwanegol ac ail-leoli dwy ac ardal chwarae plant, gwella maes parcio presennol ac ardal gwasanaethu, ynghyd â thirlunio – Tŷ Newydd Caravan Park, Sarn Bach **– Gwrthodwyd**
C17/1007/39/LL	Adeiladu caffi/bar snac glan y môr yn lle'r un presennol – The Warren, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1012/39/TC	Tystysgrif Cyfreithloni Defnydd i ddefnyddio adeilad fel annedd ar wahân a hunan gynhaliol – The Barn (Felin Soch), Aber-soch **– Caniatawyd (TC yn unig)**
C17/1051/39/LL	Dymchwel tŷ ac adeiladu un newydd yn ei le – Cae'r Ffynnon, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C17/1070/39/LL	Adeiladu tŷ fforddiadwy – Tir ger Stád Cornwall, Mynytho **– Gwrthodwyd**
C17/1184/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (Llechi) a 4 (Gorffeniad Allanol) o Ganiatâd Cynllunio C17/0318/39/LL – Tir ger Deudraeth, Aber-soch **– Caniatawyd yn ddi-amodol**

12. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Ionawr (Rh/S 002021) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Dŵr Cymru – £341.18 (Rh/S 002118 – Cyflenwad Dŵr Toiledau Lôn Traeth)

b) Bacstal Pac – £99.60 (Rh/S 002119 – Gweinyddu Cyflog y Clerc)
c) John D. Roberts – £75.00 (Rh/S 002120 – Archwiliad Mewnol 2016 – 2017)
ch) John Roberts (Ffestiniog) Ltd. – £1560.96 (Rh/S 002122 – Glanhau Afon Soch yn 2014)
d) Casglwr Trethi – £21.48 (Rh/S 002123 – Talu Wrth Ennill)

Derbyniadau

a) Toiledau – £18.80 (£3.20 a £15.60 – Tâl Mynediad)

13. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Chwefror 14eg, 2018 am saith o'r gloch